

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol

Ionawr 2014

1. Pwrpas y Papur

Ymateb i'r argymhellion a gynigwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod Genedlaethol.

2. Cefndir a Chyd destun

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 fe ofynnodd y cyn-Weinidog dros Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, a ddylai'r Eisteddfod Genedlaethol foderneiddio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Hydref 2012 er mwyn adolygu'r trefniadau a chyflwyno argymhellion ar sut i gyflawni hyn. Roedd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys; Roy Noble, Peter Florence, Dafydd Elis-Thomas AC, Eirlys Pritchard Jones, Sioned Wyn Roberts, Nia Parry, Bethan Elfyn, Aran Jones, John Pritchard, Ali Yassine a Sian Eirian.

Gwaith y grŵp

Gofynnwyd i'r Grŵp Gorchwyl ystyried y themâu canlynol:

- Lleoliadau
- Y cystadlu a'r Wyl
- Gwirfoddolwyr
- Yr oes ddigidol
- Gwella profiad a chynyddu niferoedd ymwelwyr
- Cydweithio rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol
- Ffynonellau cyllid yr Eisteddfod.

Cyfarfodydd y Grŵp

Cychwynnodd y Grŵp ar eu gwaith yn Nhachwedd 2012. Cafwyd saith cyfarfod i gyd, ymweliad â chyfarfod Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau ar Orffennaf 1af 2013, ac ymweliad â maes yr Eisteddfod ar 7fed o Awst 2013 pan gynhaliodd y Grŵp gyfarfod agored lle'r oedd croeso i'r ymwelwyr i'r Eisteddfod leisio eu barn. Yn ystod y cyfarfodydd cafwyd cyflwyniadau a thystiolaeth gan amryw o ran-ddeiliaid. Yn ogystal ffurfiwyd tri is-grŵp i edrych ar agweddau penodol o'r Eisteddfod, sef Is-grŵp Gŵyl, Is-grŵp Data ac Is-grŵp Technoleg.

3. Gweithredu'r Argymhellion a'r Camau Nesaf

Mae argymhellion 1-6 yn cynnig cyfeiriad i'r Eisteddfod ar ddulliau i ddatblygu ymhellach, moderneiddio a denu ymwelwyr, ond mi fydd yn rhaid i'r Eisteddfod benderfynu a ydynt am eu derbyn ai peidio. Mae argymhellion 7-9 yn dargedau uniongyrchol i'r Llywodraeth, ac rydym yn cynnig ein bod yn;

- mynd ati i sefydlu trefn rheolaidd o gyfarfod rhwng yr Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol
- yn parhau i adolygu ffynonellau cyllido'r Eisteddfod i'r dyfodol; ac
- Cynnwys nodyn i'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu hariannu o fewn telerau'r fframwaith cytundeb yn gofyn iddynt gydweithio â'r Eisteddfod yn nhermau eu presenoldeb ar y maes a lle bo hynny'n rhesymol.

4. Crynodeb Gweithredol

Ar 24 Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r adroddiad a'r naw o argymhellion sy'n cael ei gynnwys ynddo.

Fel sy'n cael ei nodi yn strategaeth iaith y Llywodraeth *laith Fyw: laith Byw*, rydym yn cydnabod fod cynllunio ieithyddol yn broses hirdymor. Er mwyn llwyddo yn ein nod i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, mae angen i ni ddod â sawl elfen o fywyd pob dydd ynghyd. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar wasanaethau a defnydd y Gymraeg ar draws sawl maes yn cynnwys addysg, hamdden a sector preifat i nodi rhai. Un o'r meysydd blaenoriaeth i ni yn ein strategaeth iaith yw'r Gymuned.

Mae'r Eisteddfod bellach wedi sefydlu ei hun fel conglfaen i'r Gymraeg a Chymreictod. O'r diwrnod y maent yn cyhoeddi'r ardal nesaf i ymweld â hi, mae cyfleoedd i bawb o bob oedran i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn eu cymunedau lleol. Mae'r holl weithgareddau sydd ynghlwm a threfnu Eisteddfod, y broses o sefydlu pwyllgorau lleol, y casglu arian, yna yr ŵyl ei hun a'r holl ymwelwyr sy'n cael eu denu yno o bob cwr o Gymru a thu hwnt, i'r gwaddol sy'n cael ei adael ar ôl, yn cyfrannu at nod y Llywodraeth o weld yr iaith yn ffynnu. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol a'r gwaith datblygu cymunedol sy'n rhan greiddiol ohoni, yn bwysig iawn yng nghyd-destun Strategaeth Gymraeg y Llywodraeth, *laith Fyw:laith Byw*, yn enwedig yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011.

Mae'r argymhellion a geir yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl yn cyd-fynd yn agos â chyfeiriad presennol ein polisiâu fel y'i hamlinellwyd yn ein Strategaeth iaith *laith Fyw: laith Byw*. Tra ein bod yn falch o fedru derbyn yr argymhellion mewn egwyddor, mae angen trafodaethau pellach gyda'r Eisteddfod er mwyn iddynt hwythau gael y cyfle i ymateb i'r argymhellion a gweld a ydynt hwy am weithredu arnynt. Mae sawl un o'r argymhellion â goblygiadau ariannol ynghlwm, ac oherwydd pwysau ar y cyllidebau presennol, ni allwn ymrwymo i gynnig mwy na'r hyn y mae'r Eisteddfod yn ei dderbyn ar hyn o bryd trwy'r Grant Craidd yn ychwanegol at y taliad £90,000.

5. Ymateb llawn i argymhellion yr adroddiad;

Argymhelliad 1 - Lleoliadau

Bod yr Eisteddfod yn parhau i deithio i wahanol ardaloedd o Gymru bob blwyddyn. Ei bod yn arbrofi gydag adlewyrchu'n well yr ardal leol mae'n ymweld â hi ac yn gwneud defnydd o adnoddau sefydlog megis adeiladau yn Eisteddfod Caerdydd 2018. Yn dilyn Eisteddfod Caerdydd 2018 bod y Llywodraeth yn paratoi adroddiad ar y ddwy elfen hon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae parhau i deithio yn mynd i sicrhau fod yr Eisteddfod yn perthyn i bob rhan o Gymru. Trwy ymweld ag ardaloedd amrywiol, mae'r Eisteddfod a phartneriaid eraill yn gallu rhoi sylw dwys i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. Fe fydd gofyn i'r Eisteddfod Genedlaethol benderfynu a ydynt am arbrofi gyda dull wahanol o gynnal Eisteddfod yng Nghaerdydd 2018. Fe fyddwn yn parhau i drafod Eisteddfod 2018 gyda'r Eisteddfod, ac yn asesu'r angen i baratoi adroddiad ar ddiwedd yr Eisteddfod honno maes o law. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi adnabod pwysigrwydd hwyluso cyfarfodydd rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn trafod lleoliadau Eisteddfodau, ac mae'r cyfarfodydd hyn ar waith.

Argymhelliad 2 – Gwella Profiad

Bod yr Eisteddfod yn penodi Cyfarwyddwr Artistig newydd i fod yn gyfrifol am greu Gŵyl ddeinamig fydd yn denu ymwelwyr o bob ban o'r Byd fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Er mwyn gwireddu hyn bydd angen i'r Eisteddfod edrych ar gynllun y maes ac ehangu ei Strategaeth Farchnata i gynnwys mwy o gyfraniad gan bartneriaid sydd yn arddangos ar y maes.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae ehangu apêl y maes ei hun wedi bod yn fater sydd wedi derbyn sylw gan yr Eisteddfod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Eisteddfod wedi bod yn gweithio gyda Phrif Bartneriaid, Llywodraeth Cymru er mwyn cynyddu nifer o weithgareddau ar y stondinau ond hefyd wedi llwyddo i ddenu cyllid trwy grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r Eisteddfod wedi ehangu'r Babell Groeso i gynnig mwy o fwrlwm wrth i ymwelwyr gyrraedd yr Eisteddfod a hefyd wedi gosod caffi yno er mwyn creu man cyfarfod. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill er mwyn harddu'r maes gydag arddangosfeydd amrywiol o amgylch y stondinau. Awgrymwn y dylai'r Eisteddfod barhau i gynyddu apêl y maes gan ymgeisio am gyllid ar gyfer adnoddau 'artistig'.

Argymhelliad 3 - Y Cystadlu a'r Wyl

Bod y Cyfarwyddwr Artistig, gydag eraill, yn ymchwilio i'r cystadlaethau presennol ac yn cynnig cynllun i ddatblygu'r Eisteddfod er mwyn sicrhau rhestr o gystadlaethau fydd yn apelgar, cyfoes a blaengar, ond gan drysori'r traddodiadol yr un pryd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod eisoes wedi sefydlu grŵp er mwyn edrych ar y cystadlaethau sy'n cynnwys staff yr Eisteddfod, aelodau o'r Llys a'r cyhoedd. Oherwydd amseru cyhoeddi'r testunau ni fydd unrhyw newidiadau i'w gweld hyd nes cyhoeddi testunau Eisteddfod 2016.

Argymhelliad 4 – Cynyddu Niferoedd

Bod yr Eisteddfod yn paratoi strategaeth farchnata sy'n cynnwys gweithio gyda stondinwyr, noddwyr a chyrrff cyhoeddus i hyrwyddo'r Eisteddfod a datblygu system integredig ar gyfer casglu data a gwerthu tocynnau yn ogystal â chreu cynllun i becynnu tocynnau fydd yn fwy deniadol i deuluoedd, pobl ifanc ac ymwelwyr yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn, bod yr Eisteddfod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Dreftadaeth ac archifdy digidol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae'n fwriad gan yr Eisteddfod i lunio Strategaeth Farchnata ar y cyd â'u prif bartneriaid ar y maes yn ystod 2014. Mae'r Eisteddfod yn y broses o benodi unigolyn i fod â chyfrifoldeb dros becynnu tocynnau ac i fod â chyfrifoldeb dros gadw bas-data ymwelwyr. Byddai'n fuddiol iawn i'r Eisteddfod gynnal gwaith ymchwil ar y dulliau mwyaf effeithiol o becynnu tocynnau ac i ddysgu o brofiadau gwyliau eraill. Mae gan yr Eisteddfod archifdy ddigidol yn y Llyfrgell Genedlaethol ac maent yn awyddus iawn i benodi rhywun i gael trefn ar y gwaith er mwyn rheoli a chysoni hawlfraint yr archifdy.

Argymhelliad 5 – Gwirfoddolwyr

Yng nghyswllt y ffaith y bydd yr Eisteddfod yn parhau i deithio, bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn creu cynllun i ddenu mwy o wirfoddolwyr ifanc. Gellir gwneud hyn drwy ymgynghori gyda Fforwm Ieuenctid yr Urdd, ymysg eraill, a cholegau ac ysgolion lleol er mwyn gweithio mewn ffordd gydlynol i sicrhau rhaglen flynyddol o weithgarwch cymunedol i bobl ifanc ym mro'r Eisteddfod.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod eisoes wedi cychwyn trafodaethau gyda'r Fagloriaeth Gymreig, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Maent wedi adnabod yr angen i sicrhau ffrwd newydd o wirfoddolwyr i gymryd rhan ym mhob agwedd o drefnu a chynnal yr Eisteddfod ac yn awyddus i ddatblygu'r cynllun 'Yma i Helpu' a chasglu arferion da gan wyliau mawr eraill.

Argymhelliad 6 – Yr Oes Ddigidol

Bod yr Eisteddfod yn sefydlu Grŵp o arbenigwyr i greu strategaeth ddigidol uchelgeisiol fydd yn sicrhau bod yr Ŵyl yn parhau i ddatblygu'n dechnolegol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor – argymhelliad i'r Eisteddfod

Mae'r Llywodraeth yn derbyn fod sicrhau fod yr Ŵyl yn parhau i ddatblygu trwy ddulliau cyfoes technolegol yn bwysig iawn. Mae'r Eisteddfod eisoes yn gwneud defnydd helaeth o'u gwefan, *Twitter* a *Facebook* ac maent yn awyddus iawn i fuddsoddi mewn cyfarpar fyddai'n caniatáu Wifi ar y maes.

Argymhelliad 7 – Cydweithio rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol

Bod Llywodraeth Cymru'n trefnu cyfarfodydd cydweithio o leiaf ddwywaith y flwyddyn rhwng yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ac yn annog y ddau sefydliad i wneud ceisiadau cyfalaf ar y cyd

Ymateb: Derbyn

Mae sicrhau trafodaethau rheolaidd rhwng y partneriaid hyn yn bwysig iawn. Rydym yn ymwybodol fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Prif Weithredwr y ddau fudiad ac mae cyfarfod cydweithio eisoes wedi ei drefnu rhwng Swyddogion y Llywodraeth, Urdd Gobaith Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ionawr 2014.

Argymhelliad 8 – Ffynonellau Cyllid

Bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru'n cynyddu grant refeniw a chyfalaf yr Eisteddfod i'w galluogi i:

- *Benodi Cyfarwyddwr Artistig*
- *Datblygu gallu'r Eisteddfod i ddenu nawdd*
- *Prynu arbenigedd yn y mater o becynnu tocynnau neu gynnig tocynnau rhad ac am ddim / am bris gostyngol*
- *Buddsoddi mewn systemau casglu data*
- *Cynyddu ei chyllideb farchnata*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Tra ein bod yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn ei gwneud yn anodd i fedru ymrwmo i gynyddu'r grant refeniw a chyfalaf i'r Eisteddfod, ond mi fyddwn yn rhoi £90,000 yn ychwanegol i'r Eisteddfod yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn cwblhau rhai o'r argymhellion. Fe fyddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Eisteddfod er mwyn trafod eu hymateb hwy i'r argymhellion ac yn adnabod y blaenoriaethau yn y tymor byr, canolig a hir.

Argymhelliad 9

Bod Llywodraeth Cymru'n dylanwadu ar y cyrff cyhoeddus sydd â phresenoldeb yn yr Eisteddfod drwy ofyn iddynt, o fewn eu llythyron cylch gorchwyl blynyddol, i greu partneriaeth gref gyda'r Eisteddfod ac i fuddsoddi yn eu presenoldeb ar y maes.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddwn yn ymgynghori gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau er mwyn cynnwys nodyn o fewn amodau a thelerau cytundeb fframwaith y cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu hariannu iddynt gydweithio gyda'r Eisteddfod o safbwynt eu presenoldeb ar y maes lle bo hynny'n rhesymol ac yn bosib.